# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Mawrth, 3 Mai 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C.A. Downward (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
M.A. Morgan a A. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.20 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan M. Dodd, y Cynghorydd Cymuned J. Gilasbey a'r Cynghorwyr Sir S.M. Allen a G.B. Thomas.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

**3. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD J. TREMLETT**

Ystyriodd y Pwyllgor gais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Jane Tremlett am ollyngiad o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y gallai siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin, ei Fwrdd Gweithredol neu ei Bwyllgorau mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Strategaeth Parcio arfaethedig Tref Talacharn.

Adroddwyd bod cais wedi'i wneud am ollyngiad gan fod gan y Cynghorydd Tremlett fuddiant personol yn y mater hwn gan ei bod hi'n byw yn Stryd y Brenin, Talacharn, ac y byddai'n cael ei heffeithio gan y cynllun arfaethedig i gyflwyno trwyddedau parcio i breswylwyr ar y stryd honno. Hefyd, gan fod gan ei gŵr fusnes yn Stryd y Brenin, Talacharn, a allai elwa ar y maes parcio arfaethedig oddi ar y stryd.

Roedd buddiant y Cynghorydd Tremlett hefyd yn rhagfarnol gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol bod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel y byddai'n amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd ehangach y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Tremlett wedi gofyn am ollyngiad fel y gallai siarad a phleidleisio.

Yn dilyn trafodaeth fanwl

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cais y Cynghorydd J. Tremlett am ollyngiad fel y gallai SIARAD A PHLEIDLEISIO yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin, ei Fwrdd Gweithredol neu ei Bwyllgorau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â Strategaeth Parcio arfaethedig Tref Talacharn yn cael ei wrthod.**

CADEIRYDD

DYDDIAD